Access to Research

# Canllaw Gwybodaeth i Lyfrgelloedd



2023

Publishers Association

Association of Learned and Professional Society Publishers

Libraries Connected

PLS Publishers' Licensing Services

02.

# Eisiau gwybod mwy am Access to Research?

Peidiwch â phoeni. Gallwn ni eich rhoi ar ben y ffordd gyda'r canllaw gwybodaeth hanfodol yma.

03.

# Pwy sy'n ymwneud ag Access to Research?

Mae’r gwasanaeth yn gydweithrediad unigryw rhwng:

- Cyhoeddwyr, a gynrychiolir gan Gymdeithas y Cyhoeddwyr a Chymdeithas Cyhoeddwyr Cymdeithasau Dysgedig a Phroffesiynol
- Llyfrgelloedd Cyhoeddus, a gynrychiolir gan Libraries Connected
- Publishers Licensing Services, sy'n gweinyddu'r gwasanaeth
- ProQuest, sy'n darparu'r offeryn darganfod

Publishers Association

Association of Learned and Professional Society Publishers

Libraries Connected

PLS Publishers’ Licensing Services

04.

# Ein Stori

## Llinell amser fer Access to Research

### 2011

lYn 2011 daeth llywodraeth y DU â phwyllgor annibynnol ynghyd i adolygu sut y gallai mynediad at ymchwil academaidd ac ymchwil a ariennir yn gyhoeddus gael ei ehangu.

Cyflwynodd y pwyllgor, sy'n cael ei adnabod fel The Finch Group, eu hargymhellion yn 2012.

### 2014

Cychwynnodd y prosiect Access to Research ar gyfnod peilot, gyda chyhoeddwyr prif gyfnodolion yn rhoi trwydded i lyfrgelloedd cyhoeddus ddarparu mynediad am ddim wrth gamu dros y trothwy i'w herthyglau academaidd.

### 2016

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus dros ddwy flynedd, rhoddodd y rhanddeiliaid eu cefnogaeth i'r gwasanaeth barhau. Cyflwynwyd Access to Research i bob llyfrgell gyhoeddus ar draws y DU.

Access to Research


# Beth yn union yw Access to Research?

Mae Access to Research yn rhoi mynediad rhad ac am ddim i unrhyw un sy’n mynd i mewn i lyfrgell gyhoeddus yn y DU at filiynau o erthyglau cyfnodolion, sydd wedi’u darparu gan lawer o gyhoeddwyr academaidd mwyaf blaenllaw'r byd. Syml!

Whiting & Birch
MICROBIOLOGY SOCIETY
ELSEVIER
EDINBURGH University Press
WILEY
PORTLAND PRESS
SAGE Publishing
ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY
SPRINGER NATURE
IOP Publishing
OXFORD UNIVERSITY PRESS
Dovepress
Wolters Kluwer
ASCO AMERICAN SOCIETY OF CLINICAL ONCOLOGY
thebmj
CAMBRIDGE
Taylor & Francis an informa business

# Sut i chwilio Access to Research






Bydd angen i ddefnyddwyr fynd i www.accesstoresearch.org.uk a chlicio ar y botwm ‘search’.

Gellir gwneud chwiliadau gan ddefnyddio teitlau erthyglau a chyfnodolion, dyddiad cyfnodolion, enwau awduron ac allweddeiriau. Mae yna hefyd offeryn ‘advanced search’ ar gyfer defnyddwyr sydd am ddarparu meini prawf chwilio mwy penodol.

Gall defnyddwyr ddefnyddio'r cyfleuster chwilio yn unrhyw le, ond er mwyn darllen erthyglau llawn rhaid iddyn nhw fod y tu mewn i lyfrgell gyhoeddus. Gallan nhw hefyd argraffu copi o erthygl i'w darllen gartref.

Mae modd mireinio a hidlo canlyniadau chwilio trwy offer sydd i’w gweld ar ochr chwith y dudalen.

I gael arweiniad ar yr hyn mae defnyddwyr yn gallu ei wneud a'r hyn nad ydyn nhw’n gallu ei wneud gydag erthyglau sy’n cael eu cyrchu trwy'r gwasanaeth, darllenwch y Telerau ac Amodau defnyddio sydd ar wefan Access to Research.

# Access to Research

# Cwestiynau Cyffredin

## Q Sut ydyn ni'n actifadu'r gwasanaeth?

Pan wnaethoch chi gofrestru ar gyfer y gwasanaeth, fe roisoch gyfeiriad IP allanol eich llyfrgell i ni. Mae ein tîm TG yn actifadu'r cyfeiriad IP hwn sydd yn ei dro yn darparu mynediad i'r gwasanaeth ar gyfrifiaduron eich llyfrgell.

Os yw eich cyfeiriad IP wedi newid, bydd angen i chi anfon e-bost at ddesg gymorth Access to Research gan roi eich cyfeiriad IP allanol newydd.

## Q Mae defnyddiwr yn cael ei ofyn i dalu am erthygl, pam?

Nid yw pob erthygl ym mhob cyfnodolyn ar gael am ddim. Gall rhai erthyglau diweddar fod yn destun cyfnod embargo, ac efallai na fydd hen ymchwil ar gael mwyach.

Os yw defnyddiwr yn ceisio gweld erthygl a bod gofyn iddo dalu, neu os ydych chi'n derbyn neges bod yr erthygl wedi'i chyfyngu, yna e-bostiwch ddesg gymorth Access to Research, os gwelwch yn dda.

## Q Mae defnyddiwr yn cael ei ofyn i fewngofnodi, pam?

Os gofynnir i ddefnyddiwr fewngofnodi er mwyn gweld erthygl, mae hyn fel arfer oherwydd nad yw cyfeiriad IP eich llyfrgell wedi'i actifadu neu ei fod wedi newid yn ddiweddar.

Anfonwch e-bost at ddesg gymorth Access to Research a rhowch gyfeiriad IP allanol eich llyfrgell i ni.

# Access to Research
# Cwestiynau Cyffredin

## Q Beth am Erthyglau Mynediad Agored?

Mae erthyglau Mynediad Agored eisoes ar gael i'w gweld am ddim ar wefannau cyhoeddwyr, a lle bynnag y bo modd, maen nhw'n cael eu cynnwys yn y casgliadau maen nhw'n eu darparu trwy Access to Research.

Nid oes unrhyw beth yn y gwasanaeth hwn wedi'i fwriadu i gyfyngu ar unrhyw hawliau presennol i gael mynediad at erthyglau Mynediad Agored.

## Q Pa feysydd astudio sy'n cael eu cynnwys?

SYmhlith y pynciau sy'n cael eu cwmpasu mae:

- Hanes
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Gwyddorau
- Seicoleg
- Busnes
- Celfyddydau a Diwylliant
- Achau
- Yr Amgylchedd a'r Hinsawdd

… a llawer, llawer mwy!

## Q Ar gyfer pwy mae Access to Research?

Pawb!

Mae'n darparu ffynonellau dibynadwy i ymchwilwyr annibynnol eu hastudio ac mae'n helpu myfyrwyr i astudio y tu allan i'r tymor arferol.

Mae'n gyfle i bobl ddilyn diddordebau a hobïau gan ddefnyddio ymchwil dibynadwy ac i'ch cwsmeriaid barhau i archwilio a dysgu yn ddiweddarach mewn bywyd.

Access to Research



# Oes gennych chi gwestiynau o hyd?

Bydden ni wrth ein bodd yn clywed gennych chi!
accesstoresearch@pls.org.uk

Dilynwch ni ar:

CANLLAW GWYBODAETH I LYFRGELLOEDD 2023

PLS Publishers' Licensing Services